Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Gorffennaf 2018

Amser: 09.18 - 12.17

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4870

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Russell George AC (Cadeirydd) Hefin David AC Vikki Howells AC Mark Isherwood AC David J Rowlands AC Lee Waters AC Joyce Watson AC
Tystion:	Richard Jones, Asiant Cefnffyrdd De Cymru David Bois, Asiant Cefnffyrdd De Cymru Ian Hughes, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru David Evans Dr Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Andrew Morgan, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a

	Thrafnidiaeth Sheena Hague, Llywodraeth Cymru Andy Falleyn, Llywodraeth Cymru Simon Jones, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Gareth Price (Clerc) Abigail Phillips (Ail Glerc) Robert Lloyd-Williams (Dirprwy Glerc) Phil Boshier (Ymchwilydd) Andrew Minnis (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Adam Price AC

1.2 Ni chafwyd unrhyw ddirprwyon na datganiadau o fuddiannau.

2 Asiantau Cefnffyrdd – Cyflwr y Ffyrdd yng Nghymru

2.1 Atebodd David Evans, Ian Kenrick, Richard Jones a David Bois gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor

2.2 Cytunodd Richard Jones i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor mewn ymateb i gyfres o gwestiynau gan Lee Waters AC ynghylch Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

3 Llywodraeth Leol – Cyflwr y Ffyrdd yng Nghymru

3.1 Atebodd Tim Peppin a'r Cynghorydd Andrew Morgan gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor

3.2 Cytunodd Tim Peppin i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor er mwyn egluro a oes disgwyl i awdurdodau lleol gyhoeddi eu cynlluniau rheoli asedau priffyrdd neu sicrhau bod y cynlluniau hyn ar gael i'r cyhoedd

4 Llywodraeth Cymru – Cyflwr y Ffyrdd yng Nghymru

4.1 Atebodd Ken Skates AC, Sheena Hague, Andy Falleyn a Simon Jones gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor

5 Papur(au) i'w nodi

5.1 Gwybodaeth ychwanegol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn dilyn y sesiwn ar Awtomeiddio ac Economi Cymru – Strategaeth Ddiwydiannol y DU

5.1.1 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol

5.2 Gwybodaeth ychwanegol gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn dilyn y sesiwn ar Awtomeiddio ac Economi Cymru

5.2.1 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol

5.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghylch amaethyddiaeth fanwl yn dilyn y sesiwn ar Awtomeiddio ac Economi Cymru

5.3.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr

5.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y Flaenraglen Waith: meysydd o ddiddordeb a rennir (Yn berthnasol i eitem 9 ar yr agenda)

5.4.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr

5.5 Gwybodaeth ychwanegol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ynghylch y costau ariannol sydd ynghlwm wrth brosiectau cefnffyrdd mawr – Cyflwr y Ffyrdd yng Nghymru

5.5.1 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol

5.6 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 a chrynodeb o'r trafodaethau a gafwyd mewn digwyddiad rhanddeiliaid

5.6.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr

5.7 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth at Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Fasnach Ryngwladol

5.7.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 11 Gorffennaf a 19 Gorffennaf.

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig

7 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n deillio o'r Bil Ardrethu Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion) ('y Bil')

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

8 Trafod adroddiad drafft – Gwerthu Cymru i'r Byd

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft

9 Trafod papur cwmpasu – Ymchwil ac Arloesi Cymru: Craffu cyn y broses ddeddfu

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y papur cwmpasu